


# Canolfan

LLANELLI - SIR GÂR - CYMRU


## Pentre Awel

LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Canolfan Pentre Awel

Datblygiad yn y dyfodol




**Canolfan**

- Busnes ac Arloesi
- Canolfan Darpariaeth Glinigol ac Ymchwil
- Addysg a Hyfforddiant
- Cyfleuster ar gyfer Cynadleddau a Digwyddiadau

**Byw â Chymorth**
(Datblygiad yn y dyfodol)

- Cartref nyrsio
- Gofal ychwanegol
- Llety Byw â Chymorth

**Hamdden**

- Pwll nofio, pwll dysgwr 8x 25m,
- Y Neuadd Chwaraeon
- Y Gampfa
- Stiwdios dawnsio, chwilbedlo ac amlbwrpas
- Pwll hydrotherapi

**Gwesty**
(Datblygiad yn y Dyfodol)

- Gwesty yn cynnwys hyd at 140 o welyau

# **Canolfan** Pentre Awel, lle i ffynnu

Croeso i **Ganolfan** Pentre Awel, lle sy'n hybu arloesedd, llesiant a chymuned.

Mae **Canolfan** Pentre Awel, ar arfordir Llanelli, wedi'i chynllunio i feithrin cydweithio, byw'n iach a llesiant. Mae **Canolfan** Pentre Awel yn croesawu unigolion, teuluoedd a busnesau o bob cefndir i brofi cymuned ffyniannus y Ganolfan.

Mae Canolfan Pentre Awel yn cynnwys cyfleusterau ffitrwydd a hamdden modern, mannau ar gyfer grwpiau cymunedol a digwyddiadau, cymorth ar gyfer addysg a sgiliau, mynediad at wasanaethau iechyd a llesiant ac ehangu busnesau, i gyd wedi'u cynllunio i wella ansawdd bywyd.

Beth bynnag yw eich rheswm i ddod yma, mae ein drysau ar agor i chi.

Ymunwch â ni i lunio dyfodol iachach, mwy cysylltiedig.

Cymerwch olwg 360° o'r safle










Ynglŷn â Phentre Awel

# Dewch i fod yn Egnïol a Theimlo'n Dda

Mae **Canolfan** Pentre Awel yn cynnwys campfa o'r radd flaenaf a chyfleusterau hamdden i'ch cefnogi ar eich taith iechyd, ffitrwydd a llesiant.

Ydych chi'n chwilio am fannau ymarfer annibynnol, dosbarth ffitrwydd neu gyfle i nofio'n hamddenol? Mae gan **Ganolfan** Pentre Awel bopeth sydd ei angen arnoch chi.

Mae **Canolfan** Pentre Awel yn cynnwys y canlynol:

**Gampfa Mawr:**
Campfa 600m.

**Offer EGYM:**
Am ymarferion cyflymach, mwy craff a mwy personol bob tro.

**Offer o'r radd flaenaf:**
Cit cryfder, cardio, a ffitrwydd swyddogaethol gan Precor, BLK BOX, EGYM, Keiser ac Intelligent Cycling.

**Ystafell Spin:**
Stiwdio Sbin Bwrpasol gyda beiciau Keiser.

**Ystafell Ffitrwydd:**
Stiwdios Ffitrwydd eang ar gyfer amrywiaeth o ddosbarthiadau.

**Pwll Nofio:**
Pwll 25m, 8 lôn a phwll I ddysgwyr.

**Pwll hydrotherapi:**
Pwll hydrotherapi pwrpasol ar gyfer defnydd therapiwtig.

**Cyrtiau Chwaraeon:**
8 cwrt badminton (2 gwrt pêl-rwyd maint llawn) neuadd chwaraeon ar gyfer eich holl hoff chwaraeon dan do.

Actif







# Iechyd ac Ymchwil

## Mainc Arbrofi'r Byd Go Iawn ar gyfer Arloesi

Yn **Canolfan** Pentre Awel, mae ymchwil yn digwydd ochr yn ochr â gofal, wedi'i sefydlu mewn gwasanaethau iechyd cymunedol ac wedi'i phrofi mewn lleoliadau go iawn.

Drwy ddod ag iechyd a gofal cymdeithasol, y byd academaidd a diwydiant at ei gilydd mewn un lle, mae **Canolfan** Pentre Awel yn cefnogi ymchwil arloesol a dulliau sy'n canolbwyntio ar atal, gan wella iechyd y boblogaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol.

## Gofal iechyd, yn nes at adref

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau iechyd cymunedol yn **Canolfan** Pentre Awel mewn lleoliad anhlinigol modern sy'n gyfforddus ac yn hygyrch.

Mae'r gwasanaethau ar y safle yn cynnwys fflebotomi (gwasanaethau profion gwaed), clinigau cymunedol a mannau ymgynghori, cyfleusterau therapiwtig ac adsefydlu, gan gynnwys hydrotherapi.

Mae'r model integredig hwn yn gwneud gofal yn fwy hygyrch a chyfleus, sy'n rhan o fywyd bob dydd, i'n cymuned leol.



# TRITECH Sefydliad Institute yn **Canolfan**

Mae TriTech wrth wraidd dull arloesi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac mae wedi'i leoli yn **Canolfan** Pentre Awel, sy'n golygu bod y ganolfan yn ganolbwynt ar gyfer arloesi ym maes iechyd a gwyddorau bywyd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Gan weithio ochr yn ochr â thimau Ymchwil, Arloesi a Gwerth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae TriTech yn dwyn ynghyd ofal clinigol, ymchwil a busnes i wneud y canlynol:

- Datblygu a phrofi atebion mewn amgylchedd go iawn
- Cydweithio'n uniongyrchol â phartneriaid academaidd, partneriaid yn y diwydiant a'r GIG
- Cyflymu arloesi o'r syniad i'r effaith

Drwy gael mynediad at rwydwaith iechyd a gofal ehangach Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae TriTech yn galluogi arloesi i gael ei ddatblygu, ei roi ar waith a'i ehangu'n fwy effeithiol.



Yr Athro Leighton Phillips, Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Phartneriaethau Prifysgol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

*"Mae Pentre Awel yn enghraifft bwerus o adfywio sy'n cael ei arwain gan arloesedd, gan greu amgylchedd unigryw lle gellir dylunio, profi a gweithredu arloesedd iechyd ochr yn ochr â gwasanaethau clinigol a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.*

*Mae ein huned bwrpasol yn darparu cartref parhaol i ni i gefnogi ymchwil, gwerthuso, cydweithio â diwydiant, a mabwysiadu datblygiadau digidol ac ataliol arloesol ar raddfa, gan sicrhau bod syniadau newydd yn troi yn fuddion gwirioneddol, parhaol i gleifion a gwasanaethau ledled Cymru a thu hwnt."*

# Ecosystem Arloesol Gysylltiedig

Mae cydleoli sefydliadau yn Canolfan Pentre Awel yn creu ecosystem bwerus lle gallan nhw:

- Cydweithio ag arbenigwyr blaenllaw
- Cael mynediad at gyfleusterau arbenigol a rhwydweithiau arloesi
- Cyd-ddatblygu a threialu dulliau newydd mewn lleoliadau byw

**Y canlyniad: arloesi cyflymach, partneriaethau cryfach a gwelliannau gwirioneddol mewn iechyd a llesiant yn Sir Gaerfyrddin a ledled Cymru.**

# Gweithio, Arloesi a Thyfu

Edrychwch ar beth sydd gyda ni i'w gynnig i chi a'ch busnes wrth i **Canolfan** ennill enw da i'w hun fel cyfleuster busnes blaenllaw, blaengar a deinamig.

Mae gofod Busnes ac Arloesi blaengar **Canolfan** Pentre Awel wedi'i gynllunio i ysbrydoli twf, cydweithio ac arloesi. Yn ganolog iddo mae amgylchedd deinamig lle mae entrepreneuriaid, busnesau newydd, a sefydliadau yn dod at ei gilydd i ddatblygu syniadau, rhannu arbenigedd, ac ysgogi cynnydd economaidd.

Rydym yn talu sylw i bob dim, o ddiogelwch i drafnidiaeth a chynnal a chadw, gan sicrhau bod y gweithle'n meithrin effeithlonrwydd, creadigrwydd a chysurwch. Mae mannau busnes **Canolfan** Pentre Awel yn hyblyg a gallant gynnwys busnesau o bob maint, o fusnesau lleol bach i sefydliadau cenedlaethol.

Rydym yn ymgysylltu â phartneriaid ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus, yn ogystal â phrifysgolion, colegau, ysgolion, grwpiau cymunedol, preswylwyr, a sefydliadau'r trydydd sector, gan greu ecosystem wirioneddol gysylltiedig a chydweithredol.

Rydym yn chwilio am fusnesau sy'n cyd-fynd â'n ffocws ar wyddorau bywyd, ymchwil, gofal cymdeithasol, iechyd a llesiant, ac sy'n helpu'r gymuned i fyw bywydau egnïol ac iach.


## Cyfleoedd

- Mannau cragen a chraidd ar gyfer ffitiadau pwrpasol
- Swyddfeydd o ansawdd uchel ar ein llawr Busnes ac Arloesi (ar gael yng nghanol 2027)
- Gweithfannau Cyfleus
- Ystafelloedd ymgynghori / triniaeth
- Man digwyddiadau
- Ystafelloedd cyfarfod
- Lle cynadledda


Busnes ac Arloesi

# Llawr Gwaelod

Gan agor ganol 2027, mae cyfleusterau cynadledda Canolfan Pentre Awel yn darparu lleoliad modern, hyblyg ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau a chydweithio, wedi'u cynllunio i ddod â phobl at ei gilydd mewn amgylchedd proffesiynol ac ysbrydoledig.




*Mae'r trefniadau gosod yn amodol ar gontract*

# Mannau Cynadleddau, Digwyddiadau a Chyfarfodydd

Mae ein mannau modern (sy'n agor ganol 2027) yn berffaith ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd, cynadleddau, gweithdai, ciniawau a chyfarfodydd cymunedol. Mae pob un o'r mannau hyn wedi'u cynllunio i annog cydweithio a chysylltiadau.

## Mannau Hyblyg i Bawb

- **Ystafelloedd Cyfarfod:** Ar gyfer cyfarfodydd gweithredol, hyfforddiant a thrafodaethau preifat.
- **Mannau ar gyfer Cynadleddau a Digwyddiadau:** Delfrydol ar gyfer seminarau, arddangosfeydd a rhwydweithio busnes.
- **Digwyddiadau Mawr a Digwyddiadau Gyda'r Hwyr:** Ciniawau gala, dathliadau cymunedol a digwyddiadau diwylliannol.

## Uwchraddio eich Digwyddiad

- Rhwydweithio hawdd a mynediad i'r caffi a chyfleusterau llesiant
- Cynlluniau addasadwy ar gyfer unrhyw ddigwyddiad
- Technoleg glyweledol o safon, gan gynnwys sgriniau, systemau sain a chysylltedd dibynadwy.

## Proffesiynol a Didrafferth


- Archebu hyblyg
- Cyfleusterau a chymorth o safon
- Mannau ar gyfer sesiynau trafod a rhwydweithio
- Opsiynau arlwyo i gyd yn dod o'n Cyflenwyr Cymreig lleol
- Lleoliad hygyrch â chysylltiadau trafnidiaeth cryf.

## Creu Digwyddiadau Cofiadwy

Yn **Canolfan** Pentre Awel, mae pob digwyddiad yn rhan o stori ehangach, un sy'n cysylltu pobl, syniadau a chymunedau.

# Llawr Cyntaf

Cragen a gofod craidd.




## Gweithfan


| | | |
|---|---|---|
| **A** | 511 $m^2$ | 5,500 $ft^2$ |
| **B** | 509 $m^2$ | 5,479 $ft^2$ |
| **C** | 673 $m^2$ | 7,244 $ft^2$ |
| **D** | 469 $m^2$ | 5,048 $ft^2$ |
| **E** | 336 $m^2$ | 3,617 $ft^2$ |
| **F** | 323 $m^2$ | 3,477 $ft^2$ |

# Ail Lawr

Swyddfeydd Busnes ac Arloesi ar gael.

Yr Ochr Orllewinol yw ein llawr busnes ac arloesi pwrpasol, sy'n cynnig cymysgedd o swyddfeydd llai 220 troedfedd sgwâr i ystafelloedd canolig a mwy hyd at 1500 troedfedd sgwâr.

Yn barod canol 2027



*Mae'r trefniadau gosod yn amodol ar gontract

| Ardal | Maint | ft² | M² | Ar gael** |
|---|---|---|---|---|
| **Gogledd** | Ystafell Fach | 409 | 38 | ** |
| | Ystafell Fach | 226 | 21 | ** |
| | Ystafell Fach | 247 | 23 | Ar gael |
| | Ystafell Fach | 161 | 15 | 3 ar gael |
| | Ystafell Fawr | 1141 | 106 | Ar gael |
| | Ystafell Ganolig | 549 | 51 | Ar gael |
| | Ystafell Fach | 344 | 32 | Ar gael |
| | Cydweithio | 441 | 41 | Ar gael |
| | Ystafell Fach | 151 | 14 | 2 ar gael |
| **Canolog** | Ystafell Fach | 312 | 29 | Ar gael |
| | Ystafell Fach | 151 | 14 | Ar gael |
| | Cydweithio | 441 | 41 | Ar gael |
| | Ystafell Fach | 151 | 14 | Ar gael |
| | Ystafell Fach | 151 | 14 | Ar gael |
| | Ystafell Fach | 344 | 32 | Ar gael |
| | Ystafell Ganolig | 549 | 51 | Ar gael |
| **De** | Ystafell Fach | 215 | 20 | 7 ar gael |
| | Ystafell Fawr | 990 | 82 | Ar gael |
| | Ystafell Ganolig | 570 | 53 | Ar gael |
| | Ystafell Ganolig | 420 | 38 | Ar gael |

** Argaeledd ar adeg argraffu

# Popeth rydych chi ei eisiau

Mae yna ymdeimlad gwirioneddol o gymuned yn **Canolfan** Pentre Awel.

O rwydweithio anffurfiol yn y caffi I ffrindai'n cwrdd am goffi neu hyd yn oed I wneud ymarfer corff, mae **Canolfan** Pentre Awel yn cysylltu pobl.

Cartref i fusnesau, ymchwilwyr, y byd academaidd, y trydydd sector, cleifion, myfyrwyr ac ymwelwyr.







# Pam dewis **Canolfan**

## Crynodeb o'r Cyfleusterau.

**Telerau'r brydles**
Mae'r swyddfeydd ar gael drwy brydles Newydd am gyfnod y cytunir arno.

**Tâl Gwasanaethau**
Bydd tâl gwasanaeth yn daladwy ar gyfer costau rhedeg a chynnal a chadw'r eiddo.

**Rhagor o fanylion ar gael ar gais.**

- Gweithfan Hyblyg
- Ystafelloedd Cyfarfod
- Lleoedd parcio ar y safle
- E-wefru
- WiFi
- Cysylltiadau Trafnidiaeth
- Aelodaeth gorfforaethol o'r gampfa
- Caffi a Lletygarwch
- Llecynnau Digwyddiadau
- Mynediad 24 awr
- Parcio Beiciau Diogel
- Cyfleoedd rhwydweithio.
- Mannau trafod
- Tîm rheoli cyfleusterau ymroddedig
- Pwll nofio
- Gwasanaethau gofal iechyd
- Mannau gwyrdd awyr agored
- Diogelwch 24 awr
- Llwybrau troed cyhoeddus
- Lleoedd newid
- Hygyrch
- To Solar a Brown
- EPC 'A'
- BREEAM Rhagorol

# Cysylltiadau trafnidiaeth

Mae gan **Canolfan** Pentre Awel gysylltiadau da o ran trafnidiaeth, sy'n ei gwneud yn hawdd ei chyrraedd o ddinasoedd mawr ac ardaloedd lleol.

Teithi oar y trên: Mae Gorsaf Drenau Llanelli tua 0.7 milltir o Bentre Awel.

Teithi oar y bws: Mae llwybr bws lleol yn cysylltu **Canolfan** Pentre Awel â lleoliadau allweddol sy'n sicrhau mynediad cyfleus i amwynderau a gwasanaethau lleol.

**Coridor yr M4:**


**M4**
Caerdydd **55**
1awr 15munud | 1awr 10munud

**M4**
Bryste **90**
1awr 45munud | 2awr 10munud

**M4**
Llundain **200**
3awr 45munud | 3awr 10munud

Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth hyn yn sicrhau nid yn unig bod **Canolfan** Pentre Awel yn lleoliad gwych i breswylwyr lleol, ong mae hefyd yn hawdd ei gyrraedd i ymwelwyr a busnesau ar draws y wlad.






# Cerdded, Beicio, Cyrraedd!

Yn **Canolfan** Pentre Awel, rydyn ni hefyd yn annog ymwelwyr i fanteisio i'r eithaf ar y llwybrau troed a beicio lleol sydd â chysylltiadau da, i deithio mewn ffordd fwy egnïol.

Mae ein Cynllun Teithio yn cefnogi llai o deithiau mewn ceir ac yn ei gwneud hi'n haws dewis cerdded neu feicio fel rhan o'ch ymweliad.

Drwy ddulliau teithio llesol, gallwch chi helpu i leihau tagfeydd, gwella ansawdd aer, a mwynhau taith iachach a mwy pleserus.





# Caru lle rydych chi'n byw ac yn gweithio

Mae Llanelli yn cynnig cyfuniad o ysbryd cymunedol, harddwch naturiol a chyfleoedd modern. Mae canol y dref wedi'i angori gan neuadd farchnad fawr dan do, sy'n cynnwys cynnyrch lleol, nwyddau crefftus a masnachwyr annibynnol.

O fewn pellter byr yn unig, mae Parc Manwerthu Parc Trostre yn darparu cynnig cyflenwol o frandiau'r stryd fawr a hynny mewn amgylchedd modern. Sir Gaerfyrddin yw un o brif gyrchfannau twristiaeth Cymru.

Gallwch grwydro ar hyd y 13 milltir o lwybr arfordirol di-draffig, chwarae golff ar gwrs gwych Machynys a ddyluniwyd gan Jack Nicklaus neu fwynhau un o'r parciau gwledig a'r traethau godidog.

Mae gan Sir Gaerfyrddin ddigon o le i gerdded, meddwl ac anadlu.


Clwb Golff Machynys


Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru


Amgueddfa a Gerddi Parc Howard

Traeth Cefn Sidan




**darganfodsirgar.com**
**discovercarmarthenshire.com**

# Rhagor o wybodaeth ac ymholiadau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Tîm arloesi busnes Pentre Awel

**pentreawel@sirgar.gov.uk**

www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/datblygu-a-buddsoddiad/pentreawel/


savills

**Gary Carver**
(07972 000171)
gcarver@savills.com

**Will Evans**
(07870 999643)
will.evans@savills.com

BP2 Land & Property Consultants

**Roger Poolman**
(07775 037782)
roger@bp2property.com

**David Blyth**
(07966 752301)
david@bp2property.com

**Ceri Daniel**
(07882 7120389)
ceri@bp2property.com


**HYSBYSIAD PWYSIG**

Mae Savills, eu cleientiaid a BP2 yn rhoi rhybudd:

1. Nad ydynt wedi'u hawdurdodi i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warantau mewn perthynas â'r eiddo naill ai yma neu yn rhywle arall, naill ai ar eu rhan eu hunain neu ar ran eu cleient neu fel arall. Nad ydynt yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddatganiad sydd wedi'i wneud am y manylion hyn. Nad yw'r manylion hyn yn rhan o unrhyw gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu sylwadau ffeithiol.
2. Mae unrhyw arwynebeddau, mesuriadau neu bellteroedd yn rhai bras. Canllaw yn unig yw'r testun, y ffotograffau a'r cynlluniau ac nid ydynt o reidrwydd yn gynhwysfawr. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod gan yr eiddo yr holl ganiatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu neu ganiatâd arall angenrheidiol ac nid yw Savills wedi profi unrhyw wasanaethau, offer na chyfleusterau. Rhaid i brynwyr fodloni eu hunain trwy archwilio neu fel arall.

**Gweithio mewn partneriaeth â:**

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Cardiff University – Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – University of Wales Trinity Saint David

Swansea University – Prifysgol Abertawe

colegsirgâr

Bargen Ddinesig Bae Abertawe – Swansea Bay City Deal